Royal College of Physicians

# Etholiadau 2019

# Dr Olwen E Williams MBChB FRCP OBE

## Meddyg ymgynghorol mewn meddygaeth cenhedlol-wrinol / HIV
## Ysbyty Glan Clwyd
## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gogledd Cymru

'Byddwn yn gwella gofal i gleifion.'

Mae'r her yn aruthrol mewn cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol, materion gweithlu, a rhaniadau cynyddol ar draws y cenhedloedd datganoledig. Mae meddygon yn wynebu sialensiau enfawr oherwydd galw cynyddol, disgwyliadau uwch gan gleifion a demograffeg sy'n newid. Os yw #MeddygaethYnWych yna mae angen sefydliad rhagweithiol, ymatebol ac uchel ei barch sydd â chylch dylanwad sylweddol i gefnogi ei aelodau a chynnig llais gwleidyddol yn y cyfnod ansicr hwn.

Mae Is-Lywydd Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu a llywio Cynllun Clinigol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill. Er bod y pwylsais ar sicrhau gweithlu meddygol cymwys ac ystwyth, rhaid i'r RCP yng Nghymru ddefnyddio ei ddylanwad i sicrhau bod meddygon yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi i aros yn y GIG. Rhaid iddo ddarparu ffyrdd o alluogi arweinyddiaeth a llesiant drwy gydol gyrfa'r meddyg. Am y rheswm hynny, rwy'n llwyr gefnogol i fodel y prif gofrestrydd a byddwn yn sicrhau ei fod yn mynd o nerth i nerth tra'n rhoi gwerth ar wella ansawdd a phwyslais ar ddiogelwch cleifion, sy'n rhan o ethos y RCP.

Fel aelod etholedig o Gyngor y RCP ar hyn o bryd, yn aelod o bwyllgor yr Adran Gwella Ansawdd Gofal, mae gen i ddealltwriaeth fanwl o waith pwysig yr adran. Rwy'n cydnabod y bydd cyfran sylweddol o'r gwaith yn dod o RCP North ac fel un o drigolion gogledd Cymru, rwy'n awchu am y cyfle i siapio'r adeilad newydd yn ninas Lerpwl ac i greu cysylltiadau cadarn. Dylai'r gwersi a ddysgwyd o Raglen Ysbytai'r Dyfodol barhau i gael eu troi'n gamau gweithredu, yn enwedig yr egwyddor o gyd-gynhyrchu a rhwydweithiau gofalwyr cleifion. Er bod RCP North yn gyfle i sicrhau bod dulliau gwella ansawdd cadarn yn troi'n sgil y mae pob meddyg yn meddu arno, rhaid iddo hefyd fod yn hygyrch.

Drwy fy ngwaith clinigol, rwyf wedi dod i gysylltiad â'r rheini sydd ar gyrion gofal iechyd, yn aml mewn argyfwng. Felly, ar ôl cael fy ysgogi gan ymdeimlad dwfn at gydraddoldeb, rwyf wedi ymdrechu i sicrhau bod gan bobl fregus sydd ar y cyrion fynediad at ofal iechyd o ansawdd uchel, drwy herio canfyddiadau, rhagfarnau a dylanwadu ar bolisi iechyd. Rwy'n credu bod yn rhaid i'r RCP roi blaenoriaeth i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl waith a dylai gofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

Yn rôl Is-Lywydd Cymru, byddwn yn dod â fy mrwdfrydedd, egni a'r gallu i rwydweithio a chryfhau perthnasoedd.

Byddai'n anrhydedd fawr gwasanaethu fel Is-Lywydd RCP Cymru.

**WILLIAMS** Olwen E: Datgan mai hi yw Llywydd presennol Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain, aelod o Gyngor y RCP, aelod o Gymdeithas Feddygol Prydain ac aelod o Ffederasiwn Meddygol y Meynwod. Ar hyn o bryd mae'n cael ei thalu, drwy'r RCP, am hyfforddiant Gwella Ansawdd ac mae'n Gyfarwyddwr Anweithredol y Vertical Future Company.

# Curriculum vitae

**ENW**

Dr Olwen Elizabeth WILLIAMS OBE FRCP Dip. Ven DFFP FLSW
Meddyg ymgynghorol mewn meddygaeth cenhedlol-wrinol / meddygaeth HIV
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gogledd Cymru

**ADDYSG**

| | |
|---|---|
| 1978–83 | MB ChB (Prifysgol Lerpwl 1983). Rhagoriaeth mewn obstetreg a gynaecoleg, seiciatreg |
| 1970–78 | Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, Gogledd Cymru |

**CYMWYSTERAU**

| | |
|---|---|
| 2019 | Hyfforddwr a Mentor Gweithredol ILM7 |
| 2015 | Tystysgrif PG Arweinyddiaeth Feddygol gyda rhagoriaeth (Prifysgol Cymru) |
| 1997 | FRCP (Llundain) |
| 1989 | Tystysgrif Cyd-Bwyllgor mewn Cynllunio Teulu/DFFP |
| 1989 | Dip Venereology (Lerpwl) |
| 1988 | MRCP (DU) |

**PENODIADAU A ROLAU**

1992–presennol Meddyg ymgynghorol cenhedlol-wrinol a chyfarwyddwr clinigol Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Amethyst (SARC)
Prif Arfarnwr, Ysbyty Glan Clwyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gogledd Cymru
6 sesiwn/3 diwrnod – oriau blynyddol hyblyg

2009–15 Pennaeth staff – Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Sylfaenol, Cymunedol ac Arbenigol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gogledd Cymru

1988–92 Cofrestrydd/Uwch Gofrestrydd meddygaeth genhedlol-wrinol
Royal Liverpool Hospital, Lerpwl

**SWYDDI ERAILL**

| | |
|---|---|
| 2019 | Hyfforddwr Gwella RCP - cefnogi dau brosiect y Sefydliad Iechyd yng Ngogledd Iwerddon |
| 2018 | Aelod etholedig o Gyngor y RCP |
| | – aelod o Bwyllgor yr Adran Gwella Ansawdd Gofal, y Pwyllgor Anrhydeddau a Chymrawd QI |
| 2018 | Llywydd etholedig Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH) - tymor yn dod i ben Ionawr 2020 |
| 2016 | Penodwyd i Gyd-Bwyllgor Arbenigol Meddygaeth Genhedlol-wrinol y RCP yn Llundain |
| 2012 | Ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol (NAT) |
| 2004 | Cymrawd Anrhydeddus Prifysgol Bangor |
| 1992 | Darlithydd Clinigol Anrhydeddus Prifysgol Caerdydd |

Mae pob un o'r uchod yn swyddi parhaus.

| UNRHYW WYBODAETH ARALL |
| --- |
| 2017 Cymrawd etholedig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru<br>2016–19 Is-Lywydd, Ffederasiwn Meddygol y Menywod<br>2015 Etholwyd i Gyngor NSPCC fel aelod anrhydeddus yn rôl Llywydd Rhanbarthol Cymru<br>2015 Pwyllgor Gweithredol RCP Cymru - aelod cyfetholedig fel arweinydd datblygu Ysbytai'r Dyfodol<br>2014 Pwyllgor ACCEA Cymru - penodiad parhaus<br>2014–17 'Cartref' – Safle Datblygu Ysbytai'r Dyfodol RCP - cyflwyno ymgynghoriad arloesol i gleifion allanol drwy gyfleusterau fideo-gynadledda - canmoliaeth uchel yng Ngwobrau Gwerth HSJ 2016<br>2014–18 Aelod o Gyngor Prifysgol Bangor - aelod o'r Pwyllgor Moeseg<br>2010– Cynllunio a gweithredu ward 'Rhithwir' y Gwasanaeth Gofal Gwell yn y gymuned - roedd hyn yn darparu gofal yn agosach at adref, yn osgoi dros 1,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn. Llwyddodd i ddenu cyllid 'Gwario i Arbed' gwerth £4.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i'w ddatblygu<br>2009–15 Pennaeth Staff Grŵp Rhaglen Glinigol Meddygaeth Sylfaenol, Cymunedol ac Arbenigol - Rôl arweinyddiaeth a rheolaeth feddygol, cyllideb o £198m<br>2009–13 Cadeirydd Bwrdd Gofal Heb ei Drefnu Llywodraeth Cymru - llunio argymhellion ynglŷn â'r 'System Gyfan'<br>2008 Comisiynu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol - menter ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru / iechyd / trydydd sector<br>2007–12 Aelod o bwyllgor Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru<br>2007–10– Cynrychiolydd Cymru ar Bwyllgor Sefydlog Ffederasiwn Meddygol y Menywod - Ymddiriedolwr<br>2005–7 Datblygu Gweledigaeth o wasanaethau Iechyd Rhywiol integredig, gwasanaethau integredig GUM a FP<br>2006–8 Adolygydd ar ganllawiau RCPCH / RCP / FFLM *The physical signs of Child Sexual Abuse*<br>2005–7 Cadeirydd grŵp Diddordeb Arbennig y Glasoed (BASHH) – cyd-arweinydd ar ddatblygiad Rheoli Canllawiau Effeithiolrwydd Clinigol Cenedlaethol STI mewn plant a phobl ifanc<br>2005–9 Cadeirydd pwyllgor codi arian Full Stop – NSPCC yng Nghymru – gan godi £4.2 miliwn<br>2005 Derbyn OBE yn anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines am wasanaethau i feddygaeth yng Nghymru<br>2004–7 Aelod o Gyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru<br>2003–9 Cynrychiolydd arbenigol Coleg Brenhinol y Meddygon SAC Cymru<br>2002–9 Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Parhaus Academi'r Colegau Brenhinol<br>2002 ymlaen - Bwrdd Golygyddol, *International Journal of Sexually Transmitted Infection*n<br>2000–3 Ysgrifennydd cynorthwyol y Gymdeithas Feddygol ar gyfer Astudio Clefydau Gwenerol<br>2000 Cymraes y Flwyddyn<br>1999 Ymgynghorydd ac aelod o Bwyllgor Llywodraeth Cymru 'Gwell Iechyd – Gwell Cymru', sef fframwaith strategol i hybu iechyd rhywiol yng Nghymru |